

## **Mae angen eich help ar g39**

*Galwad am ymddiriedolwyr.*

Mae g39 yn gartref i oriel a gaiff ei rhedeg gan artistiaid yn ogystal â chymuned greadigol ar gyfer y celfyddydau gweledol – y mwyaf o'i bath yng Nghymru. Sefydlwyd g39 yng Nghaerdydd ac yn 2019, daeth g39 yn elusen sy'n gweithio fel pont rhwng cymunedau, y cyhoedd ac artistiaid. Artistiaid sydd wrth wraidd gweithgareddau g39. O breswyladau i hyfforddiant a mentora, dangosiadau anffurfiol, neu wireddu'r arddangosfeydd mwyaf uchelgeisiol – ein nod yw annog a galluogi pawb sydd yn awyddus i ddilyn ymarfer celf weledol.

Rydym am recriwtio ymddiriedolwyr newydd i helpu i lywio g39 yn ystod rhan nesaf ei ddatblygiad. Rydym yn chwilio am ystod eang o fewnbwn gan bobl sydd â phrofiad byw o wahanol gymunedau yng Nghymru.

*Rydym yn chwilio am fewnbwn, sgiliau neu brofiad yn yr agweddau hynny sy'n ein helpu i weithredu o ddydd i ddydd - cyfrifyddiaeth, eiddo masnachol, llywodraethu elusennau, datblygu busnes ac adnoddau dynol - yn ogystal â'r agweddau hynny sy'n rhoi gwefr inni - celf gyfoes yng Nghymru, y cyfryngau, dylunio a marchnata a datblygu cymunedol. Rydym yn awyddus i gynyddu ein gwaith dwyieithog, felly, os ydych chi'n gweithio yn y Gymraeg neu'n dysgu, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!*

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl waeth beth fo'u hanabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, oedran, hil, tarddiad ethnig, aelodaeth a gweithgarwch undebau llafur, credoau gwleidyddol neu grefyddol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r rhai y mae eu cefndir a/neu eu hunaniaeth yn cael eu tangynrychioli yn y celfyddydau, ac yn g39. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol, o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, B/byddar, niwroamrywiol, pobl anabl neu bobl sydd ag anawsterau iechyd hirdymor a'r rhai sydd â hunaniaeth LGBTQIA+. Rydym yn croesawu ceisiadau gan yr unigolion hyn.

Dyma gyfle i'n helpu i ehangu ein cyrhaeddiad a rhoi cymorth i fwy o'r artistiaid rydym yn gweithio gyda nhw. Os ydych chi'n teimlo bod yw eich sgiliau, eich gwybodaeth neu'ch profiad bywyd yn cael eu tangynrychioli yn y celfyddydau ar hyn o bryd a'ch bod am wneud rhywbeth am hynny, hoffem glywed gennych chi yn arbennig.

*Mae mwy o wybodaeth, ynghyd â manylion ynghylch sut i wneud cais, ar gael yma >>>*

### **Sut i wneud cais**

Anfonwch e-bost at [recruit@g39.org](mailto:recruit@g39.org) gyda hyd at 500 o eiriau neu ffilm fer/recordiad sain yn dweud pam yr hoffech chi fod yn ymddiriedolwr a pha brofiad neu sgiliau y gallech eu cynnig.

Mae croeso i chi anfon CV (uchafswm o 2 dudalen), unrhyw ddolenni ar-lein sy'n mynd â ni at fanylion amdanoch chi neu'ch gwaith, blog neu amlinelliad o bethau yr hoffech i ni wybod amdanynt, ond mae'r rhain i gyd yn ddewisol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 28 Ionawr 2022

### **Y broses o wneud cais**

- Dewch i'n gweld – rydym yn hapus i gwrdd â chi a dangos y lle i chi cyn gwneud cais.

- Siaradwch ag ymddiriedolwr – gallwn eich rhoi mewn cysylltiad ag un o'n hymddiriedolwyr presennol.  
Gweler yr adran 'Cwestiynau Cyffredin' am fanylion ynghylch sut i drefnu sgwrs.
- Anfonwch eich cais atom yn y fformat sydd orau gennych chi.
- Bydd yr ymddiriedolwyr presennol yn adolygu popeth a anfonir atynt ac yn ymateb i bawb sy'n gwneud cais.
- Yna gwahoddir ymddiriedolwyr posibl i arsylwi cyfarfod o'r bwrdd ddiwedd gwanwyn 2022 cyn ymrwymo.

### **Fformatau hygyrch**

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, neu os hoffech gyflwyno'ch cais mewn ffordd arall, anfonwch e-bost at [post@g39.org](mailto:post@g39.org)

### **Cwestiynau cyffredin**

#### **Beth yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr?**

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn grŵp o bobl sy'n dod â phrofiadau, gwybodaeth a safbwyntiau gwahanol at ei gilydd, yn benodol. Gyda'i gilydd, mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyfreithiol dros yr elusen. O'r grŵp hwn, etholir Cadeirydd. Mae'r Cadeirydd yn rhywun â gweledigaeth, penderfyniad ac angerdd i helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cadeirydd yn arwain Bwrdd o Ymddiriedolwyr sy'n gweithio gyda thîm o bum aelod o staff sy'n rheoli rhaglen g39 o weithgarwch celfyddydol.

Mae yna hefyd Drysorydd ac Ysgrifennydd a benodir o blith yr ymddiriedolwyr. Yn allweddol i'n cyfrifoldeb cyllidol, mae'n ofynnol i'r Trysorydd oruchwylio ein cyllid. Y Trysorydd sy'n cadw golwg strategol, barhaus a'r modd y cânt eu rheoli; gan weithio'n agos gyda'r Cadeirydd, ymddiriedolwyr eraill a'n harchwilwyr. Y Trysorydd sy'n sicrhau bod cyfrif am yr holl arian ar gyfer amryw o brosiectau a bod adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno. Yr Ysgrifennydd sy'n sicrhau bod cyfathrebu clir ac arfer da yn cael eu cynnal.

#### **Beth yw'r ymrwymiad amser?**

- Mae'r Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn a disgwylir y byddai aelodau'r Bwrdd yn mynychu o leiaf tri chyfarfod (wyneb yn wyneb yn g39 yng Nghaerdydd neu'n rhithiol). Fel arfer, nid yw cyfarfodydd yn fwy na dwy awr o hyd. Rhennir papurau'r Bwrdd gydag ymddiriedolwyr cyn y cyfarfodydd, sy'n cymryd 1-2 awr i'w darllen a'u hadolygu.
- Cefnogi ein gweithgareddau trwy fynd i ddigwyddiadau ac arddangosfeydd lle bo hynny'n bosibl.
- Gweithredu fel eiriolwr dros ein sefydliad a'i weithgareddau
- Bod yn barod i ymrwymo i dymor o dair blynedd
- Er bod rolau ymddiriedolwyr yn rhai gwirfoddol, rydym wedi ymrwymo i dalu costau teithio, mynediad ac unrhyw gostau gofal plant/gofal a ysgwyddir.

#### **Pam bod hon yn rôl ddi-dâl?**

Pan fyddwch yn dod yn ymddiriedolwr, byddwch yn gwirfoddoli eich gwasanaethau ac ni fyddwch yn derbyn tâl am eich gwaith. Ni all elusennau dalu eu hymddiriedolwyr am fod yn ymddiriedolwyr yn unig. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Elusennau yn cefnogi egwyddor wirfoddol ymddiriedolwyr, sy'n bwysig er mwyn cynnal hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn elusennau.

#### **A allaf drafod y rôl gyda rhywun?**

Gallwch, mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr presennol yn hapus i gael sgwrs anffurfiol dros y ffôn neu alwad fideo am yr hyn y mae'r rôl wirfoddol hon yn ei olygu. Anfonwch e-bost at [post@g39.org](mailto:post@g39.org) i drefnu hyn.

### **Beth os nad wyf erioed wedi bod yn ymddiriedolwr o'r blaen?**

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol arnoch chi o fod yn ymddiriedolwr. Mae hyfforddiant ar gael i ymddiriedolwyr ynghylch llywodraethu a sut mae elusen yn cael ei rhedeg ac mae'r ymddiriedolwyr a'r staff wrth law i ateb cwestiynau a chynnig cymorth.

### **Os byddaf yn dod yn ymddiriedolwr, a allaf barhau i wneud cais am gyfleoedd i artistiaid drwy g39 a galwadau?**

Rydym yn ceisio bod mor dryloyw â phosibl ynglŷn â sut mae artistiaid yn cael eu dewis yn g39. Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, nid yw ymddiriedolwyr yn gymwys i gael cyfleoedd neu alwadau drwy g39. Mae gennym yr un rheol ar gyfer staff yn g39. Fodd bynnag, nid ydym am i yrfaoedd yr artistiaid yr ydym yn gweithio gyda nhw gael eu difrodi.

Gofynnwn i'r ymddiriedolwr/aelod o staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y gallent gyflwyno mater. Lle bu posibilrwydd o wrthdaro buddiannau yn y gorffennol, mae'r ymddiriedolwyr wedi gallu camu yn ôl o'r Bwrdd er mwyn ymgymryd â chyfleoedd, ar yr amod nad ydynt wedi bod yn allweddol wrth lunio'r cyfleoedd hynny yn ystod eu hamser yn gwasanaethu ar y Bwrdd.

### **Beth os byddaf yn canfod nad yw'n addas i mi?**

Ar ôl mynychu'r cyfarfod cyntaf, efallai y gwelwch nad dyma'r peth i chi. Nid yw'n broblem bryd hynny i dynnu'n ôl. Mae hyn hefyd yn wir os bydd amgylchiadau'n newid yn y dyfodol. Cyn belled â bod gennym beth amser i gynllunio, nid ydych ynghlwm wrth y rôl am byth!

### **Oes bisgedi?**

Lle bo modd. Rydyn ni wrth ein boddau â bisgedi. Mae te, coffi a byrbrydau yn ein cadw ni i fynd drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Rydym yn gwneud yr hyn a allwn i helpu'r trafodaethau i lifo.

**Unrhyw gwestiynau cyffredin eraill, rhowch alwad i ni, anfonwch e-bost atom neu galwch heibio.**

## ***Mae angen eich help ar g39***

*Galwad am ymddiriedolwyr.*

Mae g39 yn gartref i oriel a gaiff ei rhedeg gan artistiaid yn ogystal â chymuned greadigol ar gyfer y celfyddydau gweledol – y mwyaf o’i bath yng Nghymru. Sefydlwyd g39 yng Nghaerdydd ac yn 2019, daeth g39 yn elusen sy'n gweithio fel pont rhwng cymunedau, y cyhoedd ac artistiaid. Artistiaid sydd wrth wraidd gweithgareddau g39. O breswyliaid i hyfforddiant a mentora, dangosiadau anffurfiol, neu wireddu’r arddangosfeydd mwyaf uchelgeisiol – ein nod yw annog a galluogi pawb sydd yn awyddus i ddilyn ymarfer celf weledol.

Rydym am recriwtio ymddiriedolwyr newydd i helpu i lywio g39 yn ystod rhan nesaf ei ddatblygiad. Rydym yn chwilio am ystod eang o fewnbwn gan bobl sydd â phrofiad byw o wahanol gymunedau yng Nghymru.

*Rydym yn chwilio am fewnbwn, sgiliau neu brofiad yn yr agweddau hynny sy’n ein helpu i weithredu o ddydd i ddydd - **cyfrifyddiaeth, eiddo masnachol, llywodraethu elusennau, datblygu busnes ac adnoddau dynol** - yn ogystal â'r agweddau hynny sy’n rhoi gwefr inni - **celf gyfoes yng Nghymru, y cyfryngau, dylunio a marchnata a datblygu cymunedol**. Rydym yn awyddus i gynyddu ein gwaith dwyieithog, felly, os ydych chi'n gweithio yn y Gymraeg neu'n dysgu, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!*

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl waeth beth fo'u hanabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, oedran, hil, tarddiad ethnig, aelodaeth a gweithgarwch undebau llafur, credoau gwleidyddol neu grefyddol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r rhai y mae eu cefndir a/neu eu hunaniaeth yn cael eu tangynrychioli yn y celfyddydau, ac yn g39. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bobl o

gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol, o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, B/byddar, niwroamrywiol, pobl anabl neu bobl sydd ag anawsterau iechyd hirdymor a'r rhai sydd â hunaniaeth LGBTQIA+. Rydym yn croesawu ceisiadau gan yr unigolion hyn.

Dyma gyfle i'n helpu i ehangu ein cyrhaeddiad a rhoi cymorth i fwy o'r artistiaid rydym yn gweithio gyda nhw. Os ydych chi'n teimlo bod yw eich sgiliau, eich gwybodaeth neu'ch profiad bywyd yn cael eu tangynrychioli yn y celfyddydau ar hyn o bryd a'ch bod am wneud rhywbeth am hynny, hoffem glywed gennych chi yn arbennig.

*Mae mwy o wybodaeth, ynghyd â manylion ynghylch sut i wneud cais, ar gael yma >>>*

### **Sut i wneud cais**

Anfonwch e-bost at [recruit@g39.org](mailto:recruit@g39.org) gyda hyd at 500 o eiriau neu ffilm fer/recordiad sain yn dweud pam yr hoffech chi fod yn ymddiriedolwr a pha brofiad neu sgiliau y gallech eu cynnig. Mae croeso i chi anfon CV (uchafswm o 2 dudalen), unrhyw ddolenni ar-lein sy'n mynd â ni at fanylion amdanoch chi neu'ch gwaith, blog neu amlinelliad o bethau yr hoffech i ni wybod amdanynt, ond mae'r rhain i gyd yn ddewisol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 28 Ionawr 2022

### **Y broses o wneud cais**

- Dewch i'n gweld – rydym yn hapus i gwrdd â chi a dangos y lle i chi cyn gwneud cais.
- Siaradwch ag ymddiriedolwr – gallwn eich rhoi mewn cysylltiad ag un o'n hymddiriedolwyr presennol. Gweler yr adran 'Cwestiynau Cyffredin' am fanylion ynghylch sut i drefnu sgwrs.
- Anfonwch eich cais atom yn y fformat sydd orau gennych chi.
- Bydd yr ymddiriedolwyr presennol yn adolygu popeth a anfonir atynt ac yn ymateb i bawb sy'n gwneud cais.

- Yna gwahoddir ymddiriedolwyr posibl i arsylwi cyfarfod o'r bwrdd ddiwedd gwanwyn 2022 cyn ymrwymo.

### **Fformatau hygyrch**

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, neu os hoffech gyflwyno'ch cais mewn ffordd arall, anfonwch e-bost at *post@g39.org*

### **Cwestiynau cyffredin**

#### **Beth yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr?**

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn grŵp o bobl sy'n dod â phrofiadau, gwybodaeth a safbwyntiau gwahanol at ei gilydd, yn benodol. Gyda'i gilydd, mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyfreithiol dros yr elusen. O'r grŵp hwn, etholir Cadeirydd. Mae'r Cadeirydd yn rhywun â gweledigaeth, penderfyniad ac angerdd i helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cadeirydd yn arwain Bwrdd o Ymddiriedolwyr sy'n gweithio gyda thîm o bum aelod o staff sy'n rheoli rhaglen g39 o weithgarwch celfyddydol.

Mae yna hefyd Drysorydd ac Ysgrifennydd a benodir o blith yr ymddiriedolwyr. Yn allweddol i'n cyfrifoldeb cyllidol, mae'n ofynnol i'r Trysorydd oruchwylio ein cyllid. Y Trysorydd sy'n cadw golwg strategol, barhaus a'r modd y cânt eu rheoli; gan weithio'n agos gyda'r Cadeirydd, ymddiriedolwyr eraill a'n harchwilwyr. Y Trysorydd sy'n sicrhau bod cyfrif am yr holl arian ar gyfer amryw o brosiectau a bod adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno. Yr Ysgrifennydd sy'n sicrhau bod cyfathrebu clir ac arfer da yn cael eu cynnal.

#### **Beth yw'r ymrwymiad amser?**

- Mae'r Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn a disgwylir y byddai aelodau'r Bwrdd yn mynychu o leiaf tri chyfarfod (wyneb yn wyneb yn g39 yng Nghaerdydd neu'n rhithiol). Fel

arfer, nid yw cyfarfodydd yn fwy na dwy awr o hyd. Rhennir papurau'r Bwrdd gydag ymddiriedolwyr cyn y cyfarfodydd, sy'n cymryd 1-2 awr i'w darllen a'u hadolygu.

- Cefnogi ein gweithgareddau trwy fynd i ddigwyddiadau ac arddangosfeydd lle bo hynny'n bosibl.
- Gweithredu fel eiriolwr dros ein sefydliad a'i weithgareddau
- Bod yn barod i ymrwymo i dymor o dair blynedd
- Er bod rolau ymddiriedolwyr yn rhai gwirfoddol, rydym wedi ymrwymo i dalu costau teithio, mynediad ac unrhyw gostau gofal plant/gofal a ysgwyddir.

### **Pam bod hon yn rôl ddi-dâl?**

Pan fyddwch yn dod yn ymddiriedolwr, byddwch yn gwirfoddoli eich gwasanaethau ac ni fyddwch yn derbyn tâl am eich gwaith. Ni all elusennau dalu eu hymddiriedolwyr am fod yn ymddiriedolwyr yn unig. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Elusennau yn cefnogi egwyddor wirfoddol ymddiriedolwyr, sy'n bwysig er mwyn cynnal hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn elusennau.

### **A allaf drafod y rôl gyda rhywun?**

Gallwch, mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr presennol yn hapus i gael sgwrs anffurfiol dros y ffôn neu alwad fideo am yr hyn y mae'r rôl wirfoddol hon yn ei olygu. Anfonwch e-bost at [post@g39.org](mailto:post@g39.org) i drefnu hyn.

### **Beth os nad wyf erioed wedi bod yn ymddiriedolwr o'r blaen?**

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol arnoch chi o fod yn ymddiriedolwr. Mae hyfforddiant ar gael i ymddiriedolwyr ynghylch llywodraethu a sut mae elusen yn cael ei rhedeg ac mae'r ymddiriedolwyr a'r staff wrth law i ateb cwestiynau a chynnig cymorth.

### **Os byddaf yn dod yn ymddiriedolwr, a allaf barhau i wneud cais am gyfleoedd i artistiaid drwy g39 a galwadau?**

Rydym yn ceisio bod mor dryloyw â phosibl ynglŷn â sut mae artistiaid yn cael eu dewis yn g39. Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, nid yw ymddiriedolwyr yn gymwys i gael cyfleoedd neu alwadau drwy g39. Mae gennym yr un rheol ar gyfer staff yn g39. Fodd bynnag, nid ydym am i yrfaeodd yr artistiaid yr ydym yn gweithio gyda nhw gael eu difrodi.

Gofynnwn i'r ymddiriedolwr/aelod o staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y gallent gyflwyno mater. Lle bu posibilrwydd o wrthdaro buddiannau yn y gorffennol, mae'r ymddiriedolwyr wedi gallu camu yn ôl o'r Bwrdd er mwyn ymgymryd â chyfleoedd, ar yr amod nad ydynt wedi bod yn allweddol wrth lunio'r cyfleoedd hynny yn ystod eu hamser yn gwasanaethu ar y Bwrdd.

### **Beth os byddaf yn canfod nad yw'n addas i mi?**

Ar ôl mynychu'r cyfarfod cyntaf, efallai y gwelwch nad dyma'r peth i chi. Nid yw'n broblem bryd hynny i dynnu'n ôl. Mae hyn hefyd yn wir os bydd amgylchiadau'n newid yn y dyfodol. Cyn belled â bod gennym beth amser i gynllunio, nid ydych ynghlwm wrth y rôl am byth!

### **Oes bisgedi?**

Lle bo modd. Rydyn ni wrth ein boddau â bisgedi. Mae te, coffi a byrbrydau yn ein cadw ni i fynd drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Rydym yn gwneud yr hyn a allwn i helpu'r trafodaethau i lifo.

Unrhyw gwestiynau cyffredin eraill, rhowch alwad i ni, anfonwch e-bost atom neu galwch heibio.